CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

HK/MLW

29 Ebrill 2024

Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

Annwyl Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Ebrill 2024; rydym yn croesawu'r cyfle i ddarparu rhagor o fanylion am ariannu cylchgronau.

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod y tendr ar gyfer y cylchgrawn llenyddol newydd wedi mynd yn ei flaen fel y cynlluniwyd ac wedi ei hysbysebu ar 4 Mawrth 2024, gyda'r dyddiad cau ar 15 Ebrill. Derbyniwyd nifer o geisiadau ac rydym yn gweithio drwy ail rownd y broses. Bydd cyfarfod llawn o'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Saesneg) yn cael ei neilltuo ar gyfer cyfweld a phenderfynu ar 24 Gorffennaf 2024, ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu dyfarnu tendr yn ffurfiol yn ystod yr wythnos ganlynol.

**Gofynnwyd gennych pa ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru gyda'r sector wrth lunio'r tendr ar gyfer cylchgrawn llenyddol.**
Gan ragweld y rownd dendro ar gyfer cylchgrawn newydd yn 2023, comisiynodd yr Is-bwyllgor annibynnol (Saesneg) adolygiad mewnol drwy sefydlu panel yn cynnwys pedwar aelod o'r Is-bwyllgor a dau arbenigwr allanol: ymgynghorydd cylchgrawn digidol a golygydd sy'n rhedeg cylchgrawn annibynnol bach. Cefnogwyd y panel gan Bennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi a'r Swyddog Datblygu Cyhoeddi (Saesneg).

Er na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gyda deiliaid y fasnachfraint cyn y cylch tendro newydd, rydym mewn cysylltiad rheolaidd iawn gyda'r holl dderbynwyr grant gan eu bod fel arfer yn gwneud cais am gyllid heb ei glustnodi a chyllid prosiect trwy gydol unrhyw flwyddyn benodol – sy'n golygu bod angen cyswllt aml rhwng y Cyngor Llyfrau a'r derbynwyr grantiau eu hunain. Mae'r rhyngweithio rheolaidd hwn yn golygu bod gennym ddealltwriaeth fanwl o'r heriau y mae'r cylchgronau yng Nghymru yn eu hwynebu. Yn ystod cyfnod Covid a'r argyfwng costau byw, fe wnaethom ymateb i'r argyfwng yr oedd y cyhoeddwyr yn ei wynebu drwy sicrhau cyllid brys yn gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Ochr yn ochr â hyn, cynhelir cyfarfodydd gwerthuso ffurfiol yn flynyddol sy'n atgyfnerthu'r mewnwelediadau a gasglwyd drwy ein cyswllt rheolaidd yn ystod y flwyddyn; mae cyfarfodydd gwerthuso ffurfiol hefyd yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n derbyn grantiau roi adborth a rhannu eu barn a'u pryderon. Rhannwyd adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd hynny gyda'r Is-bwyllgor Cylchgrawn, ac roeddent yn ganolog i'w trafodaeth.

Gan fod penderfyniadau cylch tendr 2023 wedi gadael £85,000 o arian heb ei ddyrannu ar y pryd, ystyriodd yr Is-bwyllgor y bylchau thematig oedd i'w cael, ochr yn ochr â'r sylwadau a

Cadeirydd Chairperson · Mrs Linda Tomos · Prif Weithredwr Chief Executive · Helgard Krause ·
Castell Brychan · Aberystwyth Ceredigion · SY23 2JB · T +44 (0)1970 624151 · E castellbrychan@llyfrau.cymru ·
llyfrau.cymru · gwales.com Elusen Gofrestredig · Registered Charity · Rhif Number 1192269 ·
Noddir gan Lywodraeth Cymru · Sponsored by Welsh Government

wnaed gan y grŵp ymgyrchu ynghylch lefelau cynaliadwy o gyllid. Daeth i'r casgliad y byddai un tendr ar gyfer cylchgrawn llenyddol newydd wedi'i gefnogi gan swm sylweddol o arian yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Fodd bynnag, oherwydd toriadau o 10.5% i gyllid y Cyngor Llyfrau ar gyfer 2024/25, bu'n rhaid gostwng y gyllideb ar gyfer y tendr newydd i £80,000 y flwyddyn ac fe'i hysbysebwyd yn unol â hynny.

**Gofynnwyd gennych pa broses apelio annibynnol sydd ar waith ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus. Mae trefn gwyno'r Cyngor Llyfrau yn ymdrin â'r broses hon ac yn nodi'r canlynol:**

*Gallwch gwyno os credwch y canlynol:*

- bod 'camweinyddu' wedi digwydd (er enghraifft, os ydym wedi oedi, gwneud camgymeriadau, neu fethu dilyn y gweithdrefnau yn ei phroses ffurfiol);
- ein bod wedi methu rhoi mynediad i chi at wybodaeth, neu wedi rhoi cyngor neu wybodaeth anghywir i chi;
- ein bod wedi eich trin yn anghwrtais;
- ein bod wedi methu eich trin yn gyfartal a theg.

*Os yw eich cwyn yn gysylltiedig â chais am gyllid, ni allwn edrych ar eich cais oni bai:*

- *ein bod yn darganfod (drwy ddelio â chŵyn) na fu i ni ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig wrth asesu eich cais;*
- *y gallwch ddangos ein bod wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais;*
- *y gallwch ddangos nad oeddem wedi cymryd sylw o wybodaeth berthnasol.*

*Yr hyn na allwch gwyno amdano:*
*Efallai y byddwch yn teimlo'n siomedig os gwrthodir eich cais am gyllid, ond ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno hon i apelio yn erbyn ein penderfyniad i gynnig grant ai peidio os ydym wedi dilyn ein proses o wneud penderfyniadau yn gywir.*

Mae'r polisi i'w weld yn llawn yma – polisi cwynion

Derbyniwyd cwynion Cam 2 gan *Planet* a *New Welsh Review* yn dilyn penderfyniad y panel. Yn unol â'n gweithdrefn, ymchwiliwyd i'r ddwy gŵyn gan Gadeirydd y Panel Cylchgronau a Phennaeth yr Adran Datblygu Cyhoeddi. Ni chadarnhawyd yr un o'r cwynion a derbyniodd y ddau achwynydd atebion manwl. Ni phenderfynodd yr un o'r ddau achwynydd uwch gyfeirio eu cwyn i Gam 3.

**Gofynnwyd i ni hefyd ymhelaethu yn ymarferol ar yr hyn y gallai 'archwilio a herio pŵer y sawl sydd mewn sefyllfa o ddylanwad' ei wneud ac amlinellu i ba raddau y mae'r rhai sydd eisoes wedi derbyn grantiau dan anfantais.**
Mae gan y Cyngor Llyfrau hanes hir o alluogi newydd-ddyfodiaid i elwa ar y grantiau cyfyngedig sector cyhoeddus y mae'n eu dosbarthu. Credwn fod y llinell hon yn ein cynllun strategol yn gwneud yr ymrwymiad presennol hwn yn benodol. Mae archwilio deiliadaeth yn cydnabod bod gan ymgeiswyr presennol fantais amlwg gan fod ganddynt wybodaeth a phrofiad manwl o'r broses, ac o weithio gyda'r staff sy'n gweinyddu'r ceisiadau. Mae bod yn glir ynglŷn â hyn yn rhoi sicrwydd i newydd-ddyfodiaid bod unrhyw broses yr ydym yn ei rhedeg yn agored, yn deg ac yn gystadleuol sy'n hanfodol i osgoi diogi/syrthni. Nid yw'n rhoi'r deiliaid dan anfantais, ond yn hytrach, mae'n eu hannog i bwyso a mesur ac ailfeddwl am eu hagwedd strategol at gyfnod nesaf y fasnachfraint.

Ar gyfer y rownd masnachfraint 2023, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod angen i'r grantiau oedd yn cael eu dyfarnu fod yn seiliedig ar weledigaeth a gallu'r ymgeiswyr i gyflawni eu cynnig; dylai hanes cyflawni blaenorol fod yn un maen prawf yn unig i'w ystyried, a hynny yn

ddilys i'r graddau ei fod yn dangos y gallu i gyflwyno'r cysyniad yn y dyfodol ar gyfer cyhoeddiad penodol.

I egluro beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, hoffwn rannu rhai enghreifftiau o rowndiau masnachfraint blaenorol:

1. Enillodd *Wales Arts Review* (2012) a *The Welsh Agenda (2015)* eu grantiau masnachfraint cyntaf yn 2012 a 2015 a arweiniodd at ostyngiad mewn grantiau i'r derbynwyr oedd yn bodoli ar y pryd sef *Planet*, *New Welsh Review* a *Poetry Wales*. Ymunodd *nation.cymru* â'r cylchgronau masnachfraint am y tro cyntaf yn 2019.

2. Yn 2023, penderfynodd *Wales Arts Review* beidio â gwneud cais am nawdd, gyda phob un o'r derbynwyr presennol (*Planet*, *New Welsh Review*, *Poetry Wales*, *nation.cymru*, *The Welsh Agenda*) wedi gwneud cais, yn ogystal â phedwar ymgeisydd newydd. Bu un o'r ymgeiswyr newydd *The Paper/Y Papur* yn llwyddiannus gan sicrhau nawdd ar gyfer rownd nesaf y fasnachfraint ochr yn ochr â'r tri derbynnydd presennol; *Poetry Wales*, *nation.cymru* a *The Welsh Agenda*. Roedd *Planet* a *New Welsh Review* yn aflwyddiannus yn y cylch tendro hwn.

3. Ar yr ochr Gymraeg, collodd cylchgrawn *Taliesin* ei fasnachfraint yn 2015 ar ôl sawl degawd o nawdd gan nad oedd yn bodloni gofynion y tendr ar y pryd. Hysbysebwyd cyfle newydd gan arwain at greu'r cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt* y flwyddyn ganlynol ac mae wedi bod yn derbyn nawdd ers hynny. Mae cylchgronau Cymraeg newydd eraill fel *Cara*, *Lysh*, ac yn fwy diweddar, *Hanes Byw*, wedi ymuno â'r grŵp cylchgronau masnachfraint sy'n cynnwys *Golwg* a *Barn*, tra bod eraill fel *Y Traethodydd* heb fod yn llwyddiannus.

4. Ar yr ochr cyhoeddi llyfrau, mae cyhoeddwyr Cymraeg mwy newydd fel Atebol, Rily, Broga a Sebra wedi ymuno â sawl cyhoeddwr hirsefydlog megis Y Lolfa, Barddas, Gwasg y Bwthyn, Gwasg Carreg Gwalch a'r Dref Wen.

5. Yn 2022, llwyddodd cyhoeddwr llyfrau Saesneg newydd, Lucent Dreaming, y wasg gyntaf yng Nghymru i gael ei redeg gan ddau olygydd lliw, i sicrhau cyllid rhalgen. Roedd yr holl ymgeiswyr llwyddiannus eraill yn gyhoeddwyr sefydledig sydd wedi bod yn derbyn nawdd ers sawl blwyddyn ac mewn rhai achosion ers degawdau.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos y dull teg, cytbwys a chyson y mae ein hisbwyllgorau wedi ei weithredu dros nifer o flynyddoedd wrth ddyfarnu grantiau. Credwn fod ein prosesau, sy'n seiliedig ar gystadleuaeth agored a theg, yn ein galluogi i sicrhau arlwy bywiog, perthnasol a phoblogaidd i Gymru, ac yn un sy'n ystyried natur maes sy'n newid o ran datblygu digidol, darllenwyr, costau a chynaliadwyedd. Maent hefyd wedi ein galluogi i barhau i weithredu'n effeithiol er gwaethaf dros ddegawd o gyllid yn ei unfan, ac yn fwyaf diweddar, doriad heriol iawn o 10.5% i'n cyllideb.

**Gofynnwyd hefyd am amlinelliad o weledigaeth Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y sector cylchgronau Saesneg a chopi o'r adolygiad mewnol.**
Cyfeiriwch at ddogfennau tendro 2023 sydd i'w gweld yma, dogfennau tendro cylchgrawn newydd 2024 sydd i'w gweld yma, ac rwy'n amgáu copi o adroddiad yr Is-bwyllgor Cylchgrawn yn dilyn adolygiad mewnol o'r cylchgronau. Yn y ddogfen olaf honno, cyfeirir at adroddiad yr arbenigwyr allanol. Ni allwn rannu'r adroddiad hwnnw gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif; fodd bynnag, distyllwyd yr holl wybodaeth graidd yn yr adroddiad mewnol yr ydym yn ei rannu yma.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiynau, ond mae croeso i chi gysylltu ar unrhyw adeg os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach.

Yr eiddoch yn gywir,



HELGARD KRAUSE
Prif Weithredwr